OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2453 (Cy.267) (C.96)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 5) 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Hwn yw'r pumed gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur").

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i adran 11 o'r Mesur ac eithrio is-adrannau (3) a (4).

Mae adran 11(1) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn ei ardal.

Mae adran 11(2) yn darparu bod Gweinidogion Cymru drwy reoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer y materion y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi ystyriaeth iddynt wrth asesu digonolrwydd y cyfleoedd chwarae yn ei ardal; y dyddiad erbyn pryd y dylai asesiad cyntaf gael ei gyflawni; amlder asesiadau; adolygu asesiadau; a chyhoeddi asesiadau.

Mae adran 11(5) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion plant sy'n anabl ac i anghenion plant o wahanol oedrannau.

Mae adran 11(6) yn darparu diffiniadau o "chwarae" a "digonol".

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2012 No. 2453 (W.267) (C.96)

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Children and Families (Wales) Measure 2010 (Commencement No. 5) Order 2012

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This is the fifth commencement order made by the Welsh Ministers under the Children and Families (Wales) Measure 2010 ("the Measure").

This Order brings into effect section 11 of the Measure with the exception of subsections (3) and (4).

Section 11(1) requires a local authority to assess the sufficiency of play opportunities for children within its area.

Section 11(2) provides for the Welsh Ministers by way of regulations to make provision for the matters which a local authority must take into account when assessing the sufficiency of play opportunities within its area; the date by which the first assessment should be carried out; the frequency of assessments; the review of assessments; and the publication of assessments.

Section 11(5) requires local authorities to have regard to the needs of children who are disabled and to the needs of children of different ages.

Section 11(6) provides definitions of "play" and "sufficient".

NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN BLAENOROL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi cael eu dwyn i rym gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*O.S. Rhif*
Adran 57	1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig)	O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87)
Adran 58(1)-(5), (6)(a), (7)-(14)	1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig)	O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87)
Adrannau 59-65	1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig)	O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87)
Adrannau 19-56	1 Ebrill 2011	O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123)
Adran 72 ac Atodlen 1 paragraffau 1-18, paragraffau 21-28	1 Ebrill 2011	O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123)
Adran 73 ac Atodlen 2 (i'r graddau y maent yn ymwneud â Deddf Plant 1989, Deddf Addysg 2002 a Deddf Gofal Plant 2006)	1 Ebrill 2011	O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123)
Adran 2 (i'r graddau y mae'n gymwys i awdurdodau Cymreig)	10 Ionawr 2011	O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134)

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(This note is not part of the Order)

The following provisions of the Children and Families (Wales) Measure 2010 have been brought into force by Commencement Orders made before the date of this Order.

Provision	*Date of Commencement*	*S.I. No.*
Section 57	1 September 2010 (in relation to specified local authority areas)	S.I. 2010/1699 (W.160) (C.87)
Section 58(1)-(5), (6)(a), (7)-(14)	1 September 2010 (in relation to specified local authority areas)	S.I. 2010/1699 (W.160) (C.87)
Sections 59-65	1 September 2010 (in relation to specified local authority areas)	S.I. 2010/1699 (W.160) (C.87)
Sections 19-56	1 April 2011	S.I. 2010/2582 (W.216) (C.123)
Section 72 and Schedule 1 paragraphs 1-18, paragraphs 21-28	1 April 2011 (W.216)	S.I. 2010/2582 (C.123)
Section 73 and Schedule 2 (in so far as they relate to the Children Act 1989, the Education Act 2002 and the Childcare Act 2006)	1 April 2011	S.I. 2010/2582 (W.216) (C.123)
Section 2 (in so far as it applies to the Welsh authorities)	10 January 2011	S.I. 2010/2994 (W.248) (C.134)

Adrannau 4, 5, 6, 17, 18	10 Ionawr 2011	O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134)	Sections 4, 5, 6, 17, 18	10 January 2011	S.I. 2010/2994 (W.248) (C.134)
Adrannau 58(2), 60(1), 62(2), a 63 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym	27 Ionawr 2012	O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5)	Sections 58(2), 60(1), 62(2), and 63 in so far as they are not already in force	27 January 2012	S.I. 2012/191 (W.30) (C.5)
Rhan 3 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) ac eithrio paragraffau (b), (c), a (d) o adran 58(6)	28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig)	O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5)	Part 3 (in so far as it is not already in force) except paragraphs (b), (c), and (d) of section 58(6)	28 February 2012 (in relation to the specified local authority areas)	S.I. 2012/191 (W.30) (C.5)
Rhan 3 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) ac eithrio paragraffau (b), (c), a (d) o adran 58(6)	31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig)	O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5)	Part 3 (in so far as it is not already in force) except paragraphs (b), (c), and (d) of section 58(6)	31 March 2012 (in relation to the specified local authority areas)	S.I. 2012/191 (W.30) (C.5)
Adran 12	31 Ionawr 2012	O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5)	Section 12	31 January 2012	S.I. 2012/191 (W.30) (C.5)

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2453 (Cy.267) (C.96)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 5) 2012

Gwnaed *22 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 75(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 5) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Y diwrnod penodedig

2. 1 Tachwedd 2012 yw'r diwrnod penodedig i adran 11 o'r Mesur (dyletswyddau awdurdod lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant) ddod i rym ac eithrio is-adrannau (3) a (4).

(**1**) 2010 mccc 1.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2012 No. 2453 (W.267) (C.96)

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Children and Families (Wales) Measure 2010 (Commencement No. 5) Order 2012

Made *22 September 2012*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 75(3) of the Children and Families (Wales) Measure 2010(**1**), make the following Order:

Title and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Children and Families (Wales) Measure 2010 (Commencement No. 5) Order 2012.

(2) In this Order—

"the Measure" ("*y Mesur*") means the Children and Families (Wales) Measure 2010.

Appointed day

2. 1 November 2012 is the appointed day for the coming into force of section 11 of the Measure (local authority duties in respect of play opportunities for children), with the exception of subsections (3) and (4).

(**1**) 2010 nawm 1.

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

22 Medi 2012

©℗ Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Deputy Minister for Children and Social Services under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

22 September 2012

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2012 Rhif 2453 (Cy.267) (C.96)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 5) 2012

2012 No. 2453 (W.267) (C.96)

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Children and Families (Wales) Measure 2010 (Commencement No. 5) Order 2012

£4.00

W1406/10/12 ON